

Uwchraddio'r Grid
Pentir i Drawsfynydd

The Great Grid Upgrade
Pentir to Trawsfynydd

PTNO-AEC-ZZZZ-ZZZZZZ-RPT-ES-000031

# Prosiect i Atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng Pentir a Thrawsfynydd

# Pentir to Trawsfynydd Reinforcement Project

**Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol: Gwaith Trawsfynydd**
Medi 2025

nationalgrid

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Cyflwyniad** | **3** |
| 1.1 | Cefndir y Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol hwn | 3 |
| 1.2 | Strwythur y Datganiad | 4 |
| 1.3 | Ffigurau ac Atodiadau | 4 |
| **2.** | **Deddfwriaeth a Pholisi Perthnasol** | **5** |
| 2.1 | Deddfwriaeth Berthnasol | 5 |
| 2.2 | Polisi Perthnasol | 6 |
| **3.** | **Disgrifiad o Waith Arfaethedig Trawsfynydd** | **10** |
| 3.1 | Cyflwyniad | 10 |
| 3.2 | Gwaith Arfaethedig Trawsfynydd | 10 |
| **4.** | **Ymgysylltu ac Ymgynghori â Rhanddeiliaid** | **12** |
| 4.1 | Cyflwyniad | 12 |
| 4.2 | Gwaith Ymgysylltu â Rhanddeiliaid hyd yma | 12 |
| **5.** | **Y Gymuned a'r Ardal Leol** | **14** |
| 5.1 | Cyflwyniad | 14 |
| 5.2 | Y Gymuned a'r Ardal Leol | 14 |
| 5.3 | Poblogaeth | 16 |
| 5.4 | Siaradwyr Cymraeg | 16 |
| 5.5 | Cyfleusterau a Gwasanaethau Lleol | 17 |
| **6.** | **Ystyriaethau Allweddol** | **18** |
| 6.1 | Cyflwyniad | 18 |
| **7.** | **Lliniaru a Chasgliadau** | **27** |
| **Llyfryddiaeth** | | **28** |

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cyflwyniad i'r Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol

1.1.1 Mae'r Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol (DCI) hwn wedi cael ei baratoi fel rhan o gyfres o ddogfennau sy'n cyd-fynd â chais a wnaed gan National Grid Electricity Transmission (plc) ('NGET') am ganiatâd cynllunio llawn i ddatgomisiynu hen offer ac uwchraddio seilwaith newydd yn is-orsaf bresennol Trawsfynydd (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'Gwaith Arfaethedig Trawsfynydd'). Bydd y cais, sy'n rhan o Brosiect Atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng Pentir a Thrawsfynydd ('y Prosiect'), yn cael ei gyflwyno i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) fel yr awdurdod cynllunio lleol sy'n penderfynu.

1.1.2 Yn unol â Chanllawiau Cynllunio Atodol APCE: Cynllunio a'r Gymraeg (Cyf. 1-1), mae Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol wedi cael ei baratoi gan berson cymwys. Mae'r person cymwys yn aelod achrededig o'r Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI), ac mae ganddo brofiad o asesu effeithiau posibl cynigion datblygu ar gymunedau. Mae hyn yn cynnwys ystyriaethau sy'n ymwneud â symudedd poblogaeth, elfennau gweledol, ansawdd bywyd, tai a chyflogaeth, a defnyddio ei allu a'i brofiad wrth ymchwilio i'r rhain a'u hasesu mewn cyd-destunau lleol perthnasol.

1.1.3 Mae'r gofyniad i ystyried y Gymraeg yn y broses gynllunio yn deillio o ddeddfwriaeth, polisïau cynllunio cenedlaethol a lleol, yn ogystal â gofynion dilysu awdurdodau lleol. Trafodir y gofynion hyn ymhellach yn Adran 2 y Datganiad hwn.

1.1.4 Cydnabyddir Cymru fel cenedl ddwyieithog lle mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn ddwy iaith swyddogol. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Cyf. 1-2) yn ddarpariaeth gyfreithiol sy'n darparu na ellir trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

1.1.5 Mae Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg (Cyf. 1-3) yn nodi strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, ac yn disgrifio'r Gymraeg fel *"un o drysorau Cymru... [ac mae'n] rhan o'r hyn sy'n ein diffinio fel pobl ac fel cenedl*". Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2024 i 2025 (Cyf. 1-4) yw'r cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn ariannol 2024 i 2025 ar gyfer gweithredu targedau allweddol Cymraeg 2050, sy'n cynnwys cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050, a chynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd i 20% erbyn 2050.

1.1.6 Mae'r Gymraeg wedi'i gwreiddio yn Eryri, gyda 58.6% o boblogaeth Gwynedd yn siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011 (Cyf. 1-1).

1.1.7 Mae'r DCI hwn yn disgrifio sut mae Gwaith Arfaethedig Trawsfynydd yn alinio â deddfwriaeth berthnasol, polisïau cenedlaethol a lleol, ac yn dangos na fyddai Gwaith Arfaethedig Trawsfynydd yn atal y Gymraeg rhag cael ei diogelu, na'i thwf yn nalgylch Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

1.1.8 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (rhifyn 12) yn disgrifio'r Gymraeg (Cyf. 1-5) fel "*rhan o'r gwead cymdeithasol a diwylliannol, a bydd ei lles yn y dyfodol yn dibynnu ar amrywiaeth eang o ffactorau, yn enwedig addysg, newid demograffig, gweithgareddau cymunedol a sylfaen economaidd gadarn i gynnal cymunedau a lleoedd cynaliadwy sy'n ffynnu*".

1.1.9 Mae Nodyn Cyngor Technegol 20 (TAN 20) (Cyf. 1-6) yn cefnogi PCC ac yn datgan bod 19% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg, a bod gan lawer o bobl eraill rywfaint o wybodaeth o'r iaith neu eu bod wrthi'n ei dysgu. Mae amrywiadau sylweddol rhwng cyfrannau'r siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol gymunedau, gan amrywio o lai nag 8% ym Mlaenau Gwent i fwy nag 85% mewn rhai rhannau o Wynedd (sef rhanbarth sirol Trawsfynydd).

1.1.10 Dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) ystyried PCC a TAN 20 yn eu cynlluniau datblygu lleol ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae gwaith arfaethedig Trawsfynydd o fewn ffin weinyddol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, lle mae Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLlE) yn berthnasol (Cyf. 1-7). Mae'r CDLlE yn pwysleisio pwysigrwydd ystyried effeithiau posibl datblygiadau ar y Gymraeg, gan ystyried y gymuned leol ar yr un pryd. Mae'r DCI hwn yn rhan o'r cais cynllunio ar gyfer gwaith arfaethedig Trawsfynydd.

## 1.2 Strwythur y Datganiad hwn

1.2.1 Dyma strwythur yr adroddiad hwn:

- Pennod 1: Cyflwyniad
- Pennod 2: Deddfwriaeth a Pholisi Perthnasol
- Pennod 3: Disgrifiad o Waith Arfaethedig Trawsfynydd
- Pennod 4: Ymgysylltu ac Ymgynghori â Rhanddeiliaid
- Pennod 5: Y Gymuned a'r Ardal Leol
- Pennod 6.1: Ystyriaethau Allweddol
- Pennod 0: Lliniaru a Chasgliadau
- Pennod 0: Llyfryddiaeth

## 1.3 Ffigurau ac Atodiadau

1.3.1 Mae'r holl ffigurau wedi'u cynnwys yng nghorff y DCI hwn a chyfeirir atynt fel Ffigur 1, Ffigur 2 ac ati.

# 2. Deddfwriaeth a Pholisi Perthnasol

## 2.1 Deddfwriaeth Berthnasol

### Deddf Cynllunio 2015 (Cymru)

2.1.1 Daeth Deddf Cynllunio (Cymru) (2015) (Cyf. 2-1) (y cyfeirir ati o hyn ymlaen fel 'Deddf 2015') i rym yn 2015, ac mae'n set o ddarpariaethau a gyflwynodd fframwaith deddfwriaethol modern ar gyfer gweithredu'r system gynllunio yng Nghymru.

2.1.2 Mae Rhan 2 o Ddeddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygu cynaliadwy gael ei gyflawni yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gyda'r diben o sicrhau bod datblygiadau'n cyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

2.1.3 Mae Rhan 3 o Ddeddf 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) ar gyfer Cymru. Mae'r FfDC yn nodi'r "*blaenoriaethau defnydd tir a'r gofynion seilwaith ar gyfer Cymru*" a chafodd ei greu i gryfhau'r dull cynllunio sy'n cael ei arwain gan y cynllun. Mae'r FfDC ar ffurf Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 ('Cymru'r Dyfodol') (Cyf. 2-2), ac mae'n cynnwys uchelgeisiau cyffredinol ar gyfer dyfodol Cymru, gan gynnwys hybu'r Gymraeg drwy gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i 1 miliwn erbyn 2050, a fyddai'n gynnydd bras o 80% o'r niferoedd presennol. Trafodir polisïau allweddol Cymru'r Dyfodol ymhellach isod.

2.1.4 Mae Rhan 3, Adran 11 o Ddeddf 2015 yn diwygio Adran 61 (2)(a) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 i gynnwys y Gymraeg fel mater i'w ystyried wrth ystyried rheoli datblygu yn ardaloedd gweinyddol awdurdodau cynllunio lleol. Mae Rhan 3, Adran 31 o Ddeddf 2015 yn diwygio Adran 70 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i gyfarwyddo awdurdodau cynllunio lleol i ystyried y Gymraeg wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

2.1.5 O ganlyniad, mae Deddf 2015 yn creu darpariaeth ar gyfer, ac yn cefnogi'r gwaith o ddiogelu a thyfu'r Gymraeg, gan lywio'r fframwaith sy'n cynnwys polisïau sy'n manylu ar sut gellir cyflawni hyn drwy ddatblygu.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

2.1.6 Cyhoeddwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ('Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol') (Cyf. 2-3) yn 2015, ac mae'n darparu diben cyffredin sy'n rhwymo'n gyfreithiol ar gyfer llywodraethau cenedlaethol a lleol, byrddau iechyd lleol a chyrff cyhoeddus penodedig eraill. Drwy bennu saith nod llesiant, ei nod yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy ddylanwadu ar y ffordd y mae datblygiadau newydd yn cael eu cynllunio yng Nghymru.

2.1.7 Un o'r saith nod llesiant yw cael Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu - *"Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r iaith Gymraeg"*.

2.1.8 Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn diffinio datblygu cynaliadwy fel a ganlyn:

“*Y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyflawni’r nodau llesiant*”.

2.1.9 Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn hyrwyddo cydraddoldeb pob un o'r pedair agwedd ar lesiant wrth alluogi Cymru i gyflawni datblygu cynaliadwy. O ganlyniad, mae'r Gymraeg yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu, gan ei bod yn rhan o lesiant diwylliannol Cymru.

2.1.10 Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys egwyddor o'r enw 'Pum Ffordd o Weithio' sy'n nodi sut y dylid gweithredu'r agweddau ar ddatblygu cynaliadwy fel a ganlyn:

- Hirdymor - Yr angen i fabwysiadu dull gweithredu hirdymor drwy gydnabod pwysigrwydd anghenion tymor byr a chydbwyso'r rhain ag anghenion tymor hir;
- Integreiddio - Cymryd ymagwedd integredig, gyda phob corff cyhoeddus yn ystyried sut mae eu hamcanion llesiant yn effeithio ar y nodau llesiant a'u hamcanion, yn ogystal ag amcanion cyrff cyhoeddus eraill;
- Cyfranogiad - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae’r cyrff yn ei gwasanaethu;
- Cydweithredu - Cydweithredu â phobl eraill neu rannau eraill o’r corff cyhoeddus a allai helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant;
- Atal - Ffocysu ar atal problemau rhag digwydd neu waethygu er mwyn helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

2.1.11 Mae angen ystyried yr egwyddorion hyn wrth gynllunio unrhyw gamau gweithredu sy'n ymwneud â chadw at y nodau llesiant, sydd felly'n eu gwneud yn berthnasol i'r Gymraeg.

## 2.2 Polisi Perthnasol

### Cymru’r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

2.2.1 Mabwysiadwyd Cymru'r Dyfodol (Ref. 2-2) yn 2019 a dyma'r FfDC ar gyfer Cymru, gyda statws cynllun datblygu. Cynllun gofodol ydyw sy'n pennu cyfeiriad ar gyfer lle y dylid buddsoddi mewn seilwaith a lle y dylai datblygu ddigwydd er budd Cymru a'i phobl. Mae Cymru'r Dyfodol yn ffocysu ar faterion, heriau a datrysiadau ar raddfa genedlaethol, a bwriedir iddo gael ei ddefnyddio fel fframwaith y mae Cynlluniau Datblygu ar lefel ranbarthol a lleol yn adeiladu arno.

2.2.2 Fel y nodir ym mharagraff 2.1.3 uchod, mae Cymru'r Dyfodol yn nodi uchelgeisiau Llywodraeth Cymru i dyfu'r Gymraeg dros yr ugain mlynedd nesaf. Mae'n nodi y dylai pob cynllun datblygu ystyried y Gymraeg ac, ar gyfer ardaloedd lle mae'r Gymraeg yn iaith bob dydd i'r gymuned, bydd datblygiadau'n cael eu rheoli i sicrhau bod y Gymraeg yn parhau i fod yn ganolog i'r gymuned honno.

2.2.3 Mae Polisi 1: 'Ble bydd Cymru'n tyfu' yn rhoi manylion am gymorth Llywodraeth Cymru i dwf cynaliadwy ledled Cymru, ar yr amod ei fod yn briodol. Mae'r polisi'n tynnu sylw at ardaloedd penodol sydd i'w hystyried yn Ardaloedd Twf Cenedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys gogledd Cymru, sef lleoliad gwaith arfaethedig Trawsfynydd. Mae Polisi 1 yn nodi pwysigrwydd cyflawni canlyniadau Cymru'r Dyfodol yn yr ardaloedd hyn er mwyn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn cael ei gyflawni. Mae hyn yn berthnasol i'r Gymraeg

gan fod ymdrech genedlaethol drwy bolisïau'r Llywodraeth, gan gynnwys Cymru'r Dyfodol, i warchod a thyfu'r iaith.

2.2.4 Mae Polisi 19: Polisïau Strategol ar gyfer Cynllunio Rhanbarthol yn rhoi manylion y blaenoriaethau strategol a ddylai fod yn sail i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Strategol Rhanbarthol. Mae'r polisi yn amlygu rôl strategaethau rhanbarthol wrth lywio polisïau lleol ac yn nodi ymhellach twf y Gymraeg fel un o elfennau allweddol uchelgais cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r Polisi hefyd yn rhoi cyd-destun gan fod gogledd Cymru yn gartref i grynodiad uchel o siaradwyr Cymraeg gyda llawer o aneddiadau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad fel iaith gyntaf i lawer o'r gymuned. Mae'r polisi'n manylu ar bwysigrwydd cymharol sicrhau bod datblygiadau yn ystyriol o ran caniatáu i'r Gymraeg ffynnu.

## Polisi Cynllunio Cymru (PCC) Rhifyn 12

2.2.5 Cyhoeddwyd Polisi Cynllunio Cymru (PCC) (Cyf. 1-4) am y tro cyntaf yn 2002, ac fe'i ddiweddarwyd ddiwethaf ym mis Chwefror 2024. Mae PCC yn nodi'r polisïau cynllunio defnydd tir ar gyfer Cymru, ynghyd â'r Nodiadau Cyngor Technegol. Nod PCC yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyflawni datblygu cynaliadwy sy'n gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

2.2.6 Diffinnir y Gymraeg fel rhan o'r gwead cymdeithasol a diwylliannol yng Nghymru ym mharagraff 3.25. Mae'n mynd ymlaen i gyfarwyddo y dylai'r system gynllunio ystyried yr amodau sy'n hanfodol i alluogi'r Gymraeg i ffynnu. Mae paragraff 2.27 PPC 12 yn cynnwys i ba raddau y mae cynnig datblygu yn cefnogi'r amodau sy'n caniatáu defnyddio'r Gymraeg fel ystyriaeth wrth asesu manteision cynaliadwy datblygiad.

2.2.7 Mae paragraff 3.28 PPC yn atgyfnerthu y gall y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ddefnyddio'r Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol i geisiadau am ganiatâd cynllunio. Mae paragraff 3.29 yn datgan:

*“Os oes angen, gellir cynnal asesiadau o’r effaith ar yr iaith mewn perthynas â datblygiadau mawr, na ddyrannwyd mewn cynllun datblygu, sy'n cael eu cynnig mewn ardaloedd o sensitifrwydd neu bwysigrwydd penodol i'r iaith. Dylai unrhyw ardaloedd o'r fath gael eu diffinio'n glir yn y cynllun datblygu”.*

## Nodyn Cyngor Technegol 20:

2.2.8 Cyhoeddwyd TAN 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Cyf. 1-5) yn 2017, ac mae'n rhoi arweiniad ar sut dylid ystyried y Gymraeg o fewn y system gynllunio.

2.2.9 Mae TAN 20 yn cydnabod yr angen i greu amgylchiadau ffafriol sy'n annog nifer y siaradwyr Cymraeg, a bod gan y system gynllunio rôl i'w chwarae drwy alluogi amodau sy'n caniatáu i gymunedau cynaliadwy ffynnu.

2.2.10 Mae TAN 20, paragraff 3.1.2, yn tynnu sylw at y Gymraeg fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio er ei fod yn nodi o dan Adran 70(2) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref nad oes unrhyw *“bwys ychwanegol yn cael ei roi i'r Gymraeg uwchlaw unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill, a bod rhaid i ganiatâd cynllunio fod yn seiliedig ar resymau cynllunio yn unig, a bod yn rhesymol”*.

2.2.11 Mae Adran 3.4 o TAN 20 yn tynnu sylw at yr angen i ymgynghori â'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) ar gyfer unrhyw ofynion am fesurau lliniaru a gwella i gefnogi'r Gymraeg. Dylai'r datblygwr ystyried y CDLl a dilyn unrhyw ganllawiau cysylltiedig yn unol â hynny. Mae TAN 20 yn datgan ym mharagraff 3.4.2:

*“Gellir defnyddio mesurau lliniaru ar gyfer caniatadau, naill ai drwy amodau sydd ynghlwm â chaniatâd cynllunio neu drwy rwymedigaethau adran 106”.*

2.2.12 O ganlyniad, gall datblygwyr ddisgwyl wynebu amodau a mesurau os na fydd eu datblygiad yn cydymffurfio â'r gofynion a'r disgwyliadau sy'n ymwneud â'r Gymraeg fel y nodir yn y CDLl. Mae TAN 20 yn tynnu sylw penodol at y defnydd o arwyddion a hysbysebion wrth hybu'r Gymraeg, ac yn cynghori datblygwyr i wirio'r CDLl yn benodol, ac unrhyw ganllaw cynllunio atodol, ar gyfer polisïau cysylltiedig.

## Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031

2.2.13 Cynllun Datblygu Lleol Eryri (CDLlE) (Cyf. 1-6) yw'r cynllun datblygu lleol ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri ac fe'i mabwysiadwyd yn 2019. Mae CDLlE yn nodi'r ardal fel lle arbennig o safbwynt diwylliannol, gan nodi'n benodol *“bod y Gymraeg yn rhan hanfodol”* o'r diwylliant hwn.

2.2.14 O ganlyniad, mae'r cynllun yn mynd ati'n rhagweithiol i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg a'i diogelu.

2.2.15 O dan Bolisi Datblygu 18: Yr Iaith Gymraeg a Gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau (PD 18), mae CDLlE yn nodi bod rhaid rhoi sylw i anghenion a buddiannau'r iaith Gymraeg ym mhob cais cynllunio. Mae'r polisi yn nodi y bydd cymorth yn cael ei roi i *“ddatblygiadau sy'n cynnal neu’n cryfhau uniondeb y Gymraeg”*.

2.2.16 Mae PD 18 yn gofyn am Ddatganiad Cymunedol ac Ieithyddol i gyd-fynd â rhai ceisiadau, er nad yw gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn dod o fewn y meini prawf hyn yn uniongyrchol. Y rheswm am hyn yw nad yw gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn hap-safle annisgwyl, datblygiad preswyl, masnachol, diwydiannol na thwristiaeth; na datblygiad a fyddai'n lleihau cyfleusterau cymunedol na chyfleoedd cyflogaeth.

2.2.17 Mae Polisi Strategol A: Dibenion y Parc Cenedlaethol a Datblygu Cynaliadwy (A) (PS A) yn nodi y bydd datblygiad yn cael ei wrthod pan fydd y cynnig yn peryglu dibenion y Parc Cenedlaethol, ac y dylai datblygiad hyrwyddo egwyddorion datblygu cynaliadwy, yn ogystal â gwarchod a gwella 'nodweddion arbennig' y parc cenedlaethol. Mae'r Gymraeg yn disgyn i sawl ystyriaeth fel y nodir yn y polisi gan ei bod yn rhan o dreftadaeth ddiwylliannol, cymunedau lleol, a rhinweddau arbennig y parc. Mae PS A yn annog y defnydd o enwau lleoedd Cymraeg ar gyfer datblygiad newydd ac i arwyddion fod yn ddwyieithog neu Gymraeg yn unig.

## Canllawiau Cynllunio Atodol

### Canllawiau Cynllunio Atodol Eryri

2.2.18 Cynllunio a'r Iaith Gymraeg yw'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) (Cyf. 2-4) a gyhoeddwyd gan Barc Cenedlaethol Eryri, a fabwysiadwyd yn 2021, sy'n rhoi arweiniad ar asesu'r Gymraeg a datblygiadau yn Eryri. Mae'r CCA yn ystyriaeth berthnasol pan wneir penderfyniadau ar geisiadau cynllunio, ac mae'r ddogfen yn cyfeirio at PD 18 a PS A fel y polisïau perthnasol yn CDLlE. Mae'n atgyfnerthu pwysigrwydd y Gymraeg gan nodi bod yr iaith:

*“wrth galon hunaniaeth ddiwylliannol a chymunedol y Parc Cenedlaethol fel iaith fyw a chynaliadwy yn y cymunedau hyn”.*

2.2.19 Mae'r CCA yn egluro diben Asesiad Effaith Cymunedol ac Ieithyddol wrth alluogi'r ACLl i bennu effaith datblygiadau penodol ar y Gymraeg. Mae hefyd yn nodi pwysigrwydd rhoi

'ystyriaeth ofalus' i'r ffordd y gallai datblygiadau newydd effeithio ar ddiwylliant a chymunedau lleol. Mae'n atgyfnerthu bod methiant i warchod y cymunedau lleol a'r iaith Gymraeg yn sail i wrthod ceisiadau cynllunio. Sylwer, o dan baragraff 4.3, mae'n gofyn, o dan Bolisi DP 18:

*“bod unrhyw gynigion ar gyfer arwyddion a / neu hysbysebion yn ddwyieithog o leiaf”.*

# 3. Disgrifiad o Waith Arfaethedig Trawsfynydd

## 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu pam mae angen gwaith arfaethedig Trawsfynydd ac yn disgrifio'r gwaith a fyddai'n cael ei wneud.

## 3.2 Gwaith Arfaethedig Trawsfynydd

3.2.1 National Grid Energy Transmission (NGET) sy’n gweithredu’r system trawsyrru trydan ym Mhrydain Fawr ac mae’n berchen ar y system honno yng Nghymru a Lloegr. Mae’r system yn gweithredu ar 400 kV a 275 kV, gan gysylltu cynhyrchwyr trydan ag is-orsafoedd, ble caiff y foltiau uwch eu trawsnewid yn foltiau is, gan alluogi Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu i gyflenwi'r pŵer i gartrefi a busnesau.

3.2.2 Gweithredwr y System Drydan sy’n gyfrifol am nodi sut mae angen addasu'r system trawsyrru trydan genedlaethol i ddatrys yr heriau o gysylltu systemau cynhyrchu newydd a rhyng-gysylltiadau i fynd i'r afael â lleihau allyriadau carbon a gwella diogelwch ynni. Mae gwaith dadansoddi wedi dangos nad oes digon o gapasiti trawsyrru yn y rhwydwaith trawsyrru trydan presennol yng ngogledd Cymru i gysylltu datblygiadau cynhyrchu pŵer ychwanegol ar raddfa fawr sydd un ai wedi cael caniatâd, a ragwelir neu sy’n rhagweladwy, yn enwedig o ynni adnewyddadwy ar y môr ym Môr Iwerddon, oddi ar arfordir gogleddol Cymru ac arfordir gorllewinol Lloegr.

3.2.3 Mae'r llinell drydan cylched dwbl bresennol rhwng Is-orsafoedd Pentir a Thrawsfynydd wedi'i hongian uwchben o dyrrau (peilonau), ac ar hyn o bryd mae'n gweithredu drwy geblau tanddaearol rhwng Wern a Garth (a elwir yn 'Geblau Glaslyn'). Mae cynyddu capasiti ar y llinell drydan cylched dwbl bresennol rhwng yr is-orsafoedd hyn wedi cael ei nodi fel cam gweithredu sydd angen ei gymryd ar frys. Mae hyn yn cael ei gydnabod gan Ofgem, sydd wedi nodi bod y gwaith angenrheidiol yn Fuddsoddiad Trawsyrru Strategol Carlam (ASTI).

3.2.4 Mae is-orsaf bresennol Trawsfynydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri (PCE), gogledd-orllewin Cymru. Mae’r is-orsaf tua 1.2 cilomedr (km) i'r de o Gellilydan, o fewn ffin weinyddol Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'r safle'n ymestyn dros arwynebedd o tua 3.05 hectar (ha) a bydd y datblygiad parhaol wedi'i gynnwys yn llwyr yn ôl troed presennol yr is-orsaf. Bydd y tir yn safle Gwaith Trawsfynydd yn cynnwys y ffyrdd mynediad, swyddfa a chyfleusterau lles, ardaloedd storio deunyddiau, ardaloedd cadw dros dro a meysydd parcio.

3.2.5 Mae safle Gwaith Trawsfynydd ar dir gweddol wastad. Mae gan Is-orsaf Trawsfynydd ddau bwynt mynediad. Mae'r brif fynedfa ym mhen deheuol y safle ac mae angen mynediad eilaidd drwy dir y Gwasanaethau Adfer Niwclear (NRS) ar hyd y ffin orllewinol. Mae gweddill y safle wedi'i amgylchynu gan goetir cymysg, lled-naturiol. Mae tir amaethyddol Gradd 4 a 5 yn yr ardal ehangach, yn enwedig i'r gogledd-orllewin a'r gogledd-ddwyrain o safle Gwaith Trawsfynydd.

3.2.6 Byddai gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn cynnwys gwaredu cyfarpar trydanol presennol, dymchwel hen slabiau a sylfeini concrit a datgomisiynu a datgymalu hen geblau 400 kV segur presennol sy'n llawn olew. Bydd ffordd fynediad fewnol bresennol yr is-orsaf, ger bae cylched newydd yr is-orsaf sydd wedi'i hinswleiddio ag aer, yn cael ei lledu er mwyn gallu danfon yr adweithydd siynt. Byddai'r gwaith hefyd yn cynnwys ailddefnyddio seilwaith (lle bo hynny'n addas) ar gyfer cylched bresennol, a byddai'r ceblau 400 kV sy'n rhedeg ar hyd ffin orllewinol safle’r is-orsaf yn cael eu disodli. Byddai cebl 400 kV newydd yn cael ei lwybro ar hyd ffordd fynediad bresennol yr is-orsaf, ochr yn ochr â'r ceblau 400 kV presennol tua 40m i'r dwyrain.

3.2.7 Byddai seilwaith newydd yn cynnwys sylfeini concrit cyfnerthedig, cilfach cylched is-orsaf wedi'i hinswleiddio ag aer, adweithydd siynt a nenbont lanio a chebl 400 kV. Byddai angen ad-drefnu rhywfaint ar y llinellau uwchben presennol, gan gynnwys y gwifrau sy'n arwain i lawr o Dŵr 4ZC005 i'r nenbont newydd, a'r llinell uwchben XO sy'n cysylltu â Gorsaf Bŵer Ffestiniog, a'r llinell uwchben ZK sy'n rhedeg rhwng Is-orsafoedd Trawsfynydd a Chei Connah, gyda thi drwy'r llinell uwchben ZKA i Is-orsaf Wrecsam (*Legacy Substation)*.

3.2.8 Disgwylir i'r cyfnod adeiladu bara tair blynedd o Chwarter 2, 2026 i Chwarter 2, 2029. O ganlyniad, bydd yr effeithiau tebygol o natur tymor canolig dros dro. Er mai swyddi dros dro yw'r rhain, maent yn cynrychioli effaith economaidd gadarnhaol am gyfnod sylweddol.

3.2.9 Yn ystod y cam adeiladu, byddai'r ffordd fynediad bresennol o'r A470 yn cael ei defnyddio. Mae'r cynnig yn cynnwys adeiladu caeadle yn is-orsaf bresennol Trawsfynydd, a byddai'n cael ei leoli'n agos at fynedfa'r safle. Byddai dau leoliad ar wahân yn cael eu defnyddio ar gyfer storio a gosod deunyddiau, y cyntaf hanner ffordd ar hyd y brif ffordd fynediad, a’r ail yn agos at yr ardal a ddyrannwyd ar gyfer bae cylched arfaethedig newydd yr is-orsaf, sydd wedi'i hinswleiddio ag aer.

3.2.10 Mae NGET yn amcangyfrif y bydd y gwaith arfaethedig yn galw am gyfartaledd o 20 o swyddi adeiladu cyfwerth ag amser llawn uniongyrchol gros ar y safle bob dydd yn ystod y cyfnod adeiladu, gyda gweithlu ar ei anterth o 40 yn 2027. Mae hyn yn seiliedig ar y gweithgareddau adeiladu sydd eu hangen a bydd yn amrywio yn ystod y cyfnod.

# 4. Ymgysylltu ac Ymgynghori â Rhanddeiliaid

## 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r gwaith Ymgysylltu â Rhanddeiliaid sydd wedi cael ei wneud hyd yma, mewn perthynas â'r Prosiect ehangach a gwaith arfaethedig Trawsfynydd.

4.1.2 Drwy gydol y Prosiect, mae NGET wedi ymgysylltu â nifer o grwpiau rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i'r Gymraeg.

4.1.3 Cynhaliwyd cam cyntaf yr ymgysylltu gan NGET. Pwrpas yr ymgysylltu hwn oedd cyflwyno'r Prosiect ehangach i aelodau'r cyhoedd a chynnig cyfle i ddysgu mwy am y cynigion parhaus mewn perthynas â gwaith arfaethedig Trawsfynydd a'r Prosiect ehangach. Bydd ymgysylltu lleol yn parhau drwy gydol y cam adeiladu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i gymunedau, busnesau a rhanddeiliaid lleol, a bydd yn cael ei gynnal yn ddwyieithog.

4.1.4 Roedd y cam cyntaf hwn o ymgysylltu'n cynnwys:

- Cylchlythyr wedi'i ddosbarthu i drigolion sy'n byw yn yr ardal lle bydd agweddau ar y gwaith yn cael ei wneud, gan gynnwys ym Mhorthmadog, Tremadog, Minffordd, Bryncir a Phentir. Roedd y cylchlythyr yn egluro'r cyd-destun a'r angen ar gyfer y prosiect, yn amlinellu'r gwaith arfaethedig, y prosesau cynllunio a chaniatâd, amserlen y prosiect, ac yn darparu manylion digwyddiadau gwybodaeth a manylion cyswllt y prosiect i gael rhagor o fanylion.
- Gwefan, sy'n cynnwys yr un wybodaeth.
- Pum digwyddiad gwybodaeth i'r cyhoedd, y cyntaf mewn cyfres reolaidd lle gallai pobl siarad ag aelodau o dîm y prosiect wyneb yn wyneb am ein gwaith a thrafod unrhyw ymholiadau. Cynhaliwyd y rhain mewn lleoliadau ym Mhorthmadog (x2, gan gynnwys un ar fore Sadwrn i sicrhau'r argaeledd gorau posibl), Tremadog, Bryncir / Garndolbenmaen, a Phenrhyndeudraeth.
- Digwyddiad rhithiol dwyieithog, a gynhaliwyd ar-lein ar gyfer y rheini nad oedd yn gallu mynychu digwyddiad wyneb yn wyneb.
- Gohebiaeth i gynrychiolwyr etholedig, gan gynnwys cynghorau cymuned, cynghorwyr ward, Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd, yn rhoi gwybod iddynt am ddigwyddiadau ymgysylltu ac yn cynnig cyfarfod neu sesiwn friffio.
- Cyfeiriad e-bost penodol ar gyfer y prosiect, a llinell ffôn ymholiadau radffôn y prosiect lle gallai pobl adael neges, a fyddai’n cael ei hateb fel arfer rhwng 9am a 5:30pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

4.1.5 Mae'r wybodaeth ymgysylltu wedi cael ei chynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan gynnwys cylchlythyrau, llythyrau a phaneli gwybodaeth. Mae siaradwyr Cymraeg wedi bod ar gael, a byddant yn parhau i fod ar gael, i gymryd rhan ym mhob digwyddiad a thrwy linell ffôn y prosiect. Mae pob gohebiaeth gyhoeddus, gan gynnwys negeseuon e-

bost a llythyrau, wedi cael eu cynhyrchu yn y ddwy iaith. Mae gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ar gais ar gyfer cyfarfodydd.

4.1.6 Trwy'r cyfan, cyflwynwyd y prosiect yn ei gyfanrwydd er mwyn i bobl allu deall y Prosiect a'r elfennau rhyngberthynol 'yn gyfan gwbl'.

4.1.7 Mae'r cam cyntaf hwn o ymgysylltu cyn ymgeisio yn rhan o’r gwaith ymgysylltu parhaus â chymunedau a chynrychiolwyr etholedig a fydd yn digwydd drwy gydol oes y Prosiect, gan gynnwys yn ystod y gwaith adeiladu. Mae'r partïon sy'n cymryd rhan yn cynnwys yr Awdurdod Lleol, y Cyngor Tref Lleol, y Bwrdd Iechyd a'r Ysgol Gymunedol, gyda chyfarfodydd safle ac ar-lein yn ymgysylltu â'u rhanddeiliaid perthnasol. Mae manylion llawn yr ymgysylltu wedi'u nodi yn yr Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio sy'n cyd-fynd â'r cais cynllunio. Bydd y cais hefyd yn destun Ymgynghoriad Statudol Cyn Ymgeisio (PAC), a bydd yr ymatebion i hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad PAC.

# 5. Y Gymuned a'r Ardal Leol

## 5.1 Cyflwyniad

5.1.1 Mae'r adran hon yn cynnwys data a gasglwyd ar gyfer asesu elfennau economaidd-gymdeithasol a thwristiaeth fel rhan o'r Datganiad Amgylcheddol (DA).

5.1.2 Mae data economaidd-gymdeithasol a thwristiaeth yn berthnasol i'r Datganiad Cymunedau ac Ieithyddol hwn gan ei fod yn helpu i ddeall yn well effeithiau posibl gwaith arfaethedig Trawsfynydd ar dwristiaeth, hamdden, y gymuned a chyflogaeth. Mae'r adran hon hefyd yn cyfeirio at benodau eraill y DA, ble mae gwybodaeth a gasglwyd yn berthnasol i'r Gymraeg, e.e. trafnidiaeth.

5.1.3 Mae data ychwanegol sy'n benodol i'r Gymraeg wedi'i gasglu hefyd. Darperir yr holl ddolenni i adroddiadau a data perthnasol yn llyfryddiaeth y datganiad hwn.

## 5.2 Y Gymuned a'r Ardal Leol

5.2.1 Fel rhan o'r asesiad economaidd-gymdeithasol, cafodd Prif Ardal Effaith Economaidd (taith 60 munud mewn car) ei diffinio, sy'n cyd-fynd â'r 'maes dylanwad', fel sy'n ofynnol gan CCA Datganiad y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys 146 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI). Mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o Wynedd, rhan fach o Ynys Môn, rhannau helaeth o Gonwy, rhannau o Sir Ddinbych, rhannau o Bowys a rhannau o Geredigion. Mae effeithiau gwaith arfaethedig Trawsfynydd ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, asedau preifat a chymunedol yn cael eu hasesu yn unol â radiws o 500 metr (m) o Safle Gwaith Trawsfynydd, tra bo cyfleusterau cymunedol yn cael eu hasesu yn unol â radiws o 1 cilometr (km) o'r safle.

5.2.2 Mae **Ffigur 1** yn dangos lleoliad Safle Gwaith Trawsfynydd a'r ffin amser gyrru 60 munud sy'n ffurfio Prif Ardal Effaith Economaidd gwaith arfaethedig Trawsfynydd - gweler pennod materion economaidd-gymdeithasol y DA (**Rhifyn 5, Pennod 12 - Materion Economaidd-Gymdeithasol**) i gael esboniad o sut mae hyn wedi cael ei ddiffinio.

Ffigur 1: Prif Ardal Effaith Economaidd Gwaith Trawsfynydd



## 5.3 Poblogaeth

5.3.1 Yn ôl Cyfrifiad 2021 (Cyf. 5-1), roedd gan y Brif Ardal Effaith Economaidd boblogaeth o 245,949, a oedd yn cynrychioli tua 7.9% o boblogaeth Cymru (3,107,494). Yn yr ardal hon, roedd 24.9% o'r boblogaeth dros 65 oed, cyfran uwch na'r hyn a gofnodwyd ar gyfer Gwynedd (23.1%) a Chymru (21.3%). Yn yr un modd, roedd y Prif Ardal Effaith Economaidd wedi cofnodi cyfran ychydig yn llai o breswylwyr oed gweithio (60.1%) na Gwynedd (61.4%) a Chymru (62.1%).

5.3.2 Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 (Cyf. 5-2) yn cyflwyno data amddifadedd ar lefel AGEHI. Mae 1,909 o AGEHI ledled Cymru; roedd safle cyfartalog yr AGEHI yng Ngwynedd yn 1,080 (gydag 1 yn dynodi'r ardal fwyaf difreintiedig). Rhoddir sgoriau hefyd ar gyfer pob AGEHI, gyda 0 y lleiaf difreintiedig a 100 y mwyaf difreintiedig. Y sgôr gyfartalog ar draws AGEHI Gwynedd oedd 16.8. Ar ben hynny, y degradd amddifadedd canolrifol ar gyfer AGEHI Gwynedd oedd 6; mae hyn yn dangos bod yr AGEHI yng Ngwynedd yn llai amddifad na 60% o'r AGEHI yng Nghymru ar gyfartaledd. Yn gyffredinol, mae Gwynedd yn gymharol llai difreintiedig ar gyfartaledd.

## 5.4 Siaradwyr Cymraeg

5.4.1 Mae Cyfrifiad 2021 (Cyf. 5.3) yn nodi bod 121,549 o bobl ar draws y Brif Ardal Effaith Economaidd yn gallu siarad Cymraeg (47.7% o gyfanswm poblogaeth y Brif Ardal Effaith Economaidd). Nid yw data'r Cyfrifiad blaenorol yn 2011 (Cyf. 5-4) yn defnyddio'r un ffiniau AGEHI a Chyfrifiad 2021. Fodd bynnag, wrth gysoni'r ardaloedd daearyddol gan ddefnyddio set ddata cymharu AGEHI 2011 i 2021 NOMIS (Cyf. 5-5), mae'n dangos bod 127,869 o bobl, neu 52.6% o'r boblogaeth, yn gallu siarad Cymraeg. Mae set ddata Cyfrifiad 2011 yn ystyried gwahanol gategorïau o sgiliau Cymraeg hyd at 2021, felly mae'r 47.4% arall o'r boblogaeth yn cynnwys y rheini a allai fod â sgiliau Cymraeg eraill, fel y gallu i ddeall Cymraeg llafar neu'r gallu i ddarllen neu ysgrifennu.

5.4.2 Mae **Tabl 5-1** yn amlinellu oedran cyfanswm poblogaeth siaradwyr Cymraeg y Brif Ardal Effaith Economaidd. Yn 2021, roedd tua 19.6% o boblogaeth siaradwyr Cymraeg yn y Brif Ardal Effaith Economaidd o dan 15 oed, gan ostwng ychydig o 20.1% yn 2011. Yn yr un modd, yn 2021, roedd 59.3% o siaradwyr Cymraeg yn y Prif Ardal Effaith Economaidd o oedran gweithio (16-64 oed), gan ostwng ychydig ers 2011 (60.4%). Roedd cyfran y siaradwyr Cymraeg 65 oed a throsodd wedi cynyddu rhwng 2011 (19.6%) a 2021 (21.2%)

Tabl 5-1: Canran Cyfanswm Siaradwyr Cymraeg yn ôl Oedran

| | ≤15 | 16-24 | 25-34 | 35-49 | 50-64 | 65+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2011 (%)** | 20.1 | 12.4 | 10.7 | 19.3 | 18.0 | 19.6 |
| **2021 (%)** | 19.6 | 11.2 | 11.7 | 16.8 | 19.6 | 21.2 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 (Cyf. 5-3), Cyfrifiad 2011 (Cyf. 5-4).*

## 5.5 Cyfleusterau a Gwasanaethau Lleol

5.5.1 Mae un cyfleuster cymunedol, Capel Utica, o fewn 1km i safle gwaith Trawsfynydd. Y dref agosaf yw Gellilydan (tua 1km i'r gogledd-orllewin o safle gwaith arfaethedig Trawsfynydd) sy'n darparu'r mwynderau lleol agosaf i'r safle, gan gynnwys tafarn, ysgol a gwesty.

5.5.2 Mae gan dir amaethyddol yn yr ardal ehangach, yn enwedig i'r gogledd-orllewin a'r gogledd-ddwyrain o safle gwaith Trawsfynydd, Ddosbarthiad Tir Amaethyddol (ALC) Gradd 4 yn bennaf (ansawdd gwael) gyda phocedi o Radd 5 (ansawdd gwael iawn). Mae ffermydd ac eiddo preswyl yn brin, ac mae'r agosaf tua 315m i'r gogledd o safle Gwaith Trawsfynydd.

5.5.3 Mae pedair Hawl Tramwy Cyhoeddus o fewn 500m i safle Gwaith Trawsfynydd: Llwybr troed Maentwrog Rhif 18, 50m i'r gogledd (o fynedfa'r ffordd fynediad); llwybr troed Maentwrog Rhif 5, 210m i'r gorllewin; llwybr troed Maentwrog Rhif 21, 350m i'r gogledd; a llwybr ceffylau Maentwrog Rhif 21, 290m i'r gogledd-orllewin. Yn ogystal, mae llwybr beicio Trawsfynydd i Gellilydan yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, a bydd yn cysylltu â Llwybr 82 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol o Fangor i Abergwaun pan fydd wedi'i gwblhau. Mae Llwybr 82 arfaethedig y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol tua 300m i'r gorllewin o safle Gwaith Trawsfynydd.

5.5.4 Mae nifer o lwybrau bysiau o fewn 1km i Safle Gwaith Trawsfynydd. Mae hyn yn cynnwys dwy arhosfan sy’n rhedeg i'r ddau gyfeiriad o Orsaf Bŵer Trawsfynydd (845m i'r de-orllewin o'r safle), sy'n cael eu gwasanaethu gan lwybrau T2, sy'n mynd i gyfeiriad Caernarfon a Bangor. Mae'r orsaf drenau agosaf yn Llandecwyn, tua 7.3km i'r de-orllewin o'r safle, sy'n darparu gwasanaethau Trafnidiaeth Cymru i Birmingham, Pwllheli a Machynlleth.

5.5.5 Nid oes disgwyl i waith arfaethedig Trawsfynydd gael effaith niweidiol ar argaeledd llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus yn y gymuned. Mae asesiad o'r effeithiau posibl ar drafnidiaeth gyhoeddus wedi cael ei gynnal fel rhan o'r DA (**Rhifyn 5, Pennod 9 - Traffig a Thrafnidiaeth**).

# 6. Ystyriaethau Allweddol

## 6.1 Cyflwyniad

6.1.1 Mae **Tabl 6-1** yn nodi'r ystyriaethau allweddol a aseswyd sy'n ymwneud â gwaith arfaethedig Trawsfynydd a'r mesurau a gymerwyd i ddiogelu a gwella'r defnydd o'r Gymraeg. Yna, caiff sgôr ei haseinio a'i thrafod yn gyffredinol yn y casgliadau.

**Tabl** 6.-1: Ystyriaethau Allweddol

| **Thema** | **Ymateb** | **Sgôr** |
| --- | --- | --- |
| **Iaith a Symudedd y Boblogaeth** | | |
| Sut bydd y datblygiad yn sicrhau cyfleoedd i bobl leol aros yn eu cymunedau? | Yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith i leihau effaith y gweithgareddau adeiladu ar y gymuned leol.<br><br>Bydd yr holl gyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn digwydd yn ystod y cam adeiladu, lle amcangyfrifir y bydd uchafswm o 40 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn ar y safle bob dydd yn Nhrawsfynydd. Er y bydd rhai o'r swyddi hyn yn debygol o gael eu llenwi gan drigolion lleol, mae lefelau cyflogaeth yn ddigonol dim ond i wneud y gwaith sydd ei angen ac, yn gyffredinol, maent yn cynrychioli newid bach iawn mewn cyfleoedd cyflogaeth lleol. Gan mai dim ond dros dro y bydd y newid bach hwn yn digwydd ar gyfer y gwaith adeiladu, bydd y cyfleoedd cyflogaeth i annog pobl leol i aros yn eu cymunedau yn fach.<br><br>O ran effeithiau sŵn a dirgryndod, mae'r DA (**Rhifyn 5, Pennod 11 - Sŵn a Dirgryndod**) yn datgan y bydd y gwaith yn cael ei gynnwys o fewn ffin bresennol Is-orsaf Trawsfynydd, ac nad oes derbynyddion sy'n sensitif i ddirgryniadau o fewn 300m i'r is-orsaf. O ganlyniad, cafodd effeithiau sŵn a dirgryndod eu trafod yn y DA. Bydd y contractwr hefyd yn glynu wrth y Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu (CEMP) (DA **Rhifyn 8, Atodiad 5.2.A - Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol Adeiladu Amlinellol**) sy'n nodi'r Dull Ymarferol Gorau (BPM) i reoli effeithiau sŵn a dirgryndod, fel defnyddio peiriannau modern sy'n cydymffurfio â gofynion allyriadau sŵn y DU a chydymffurfio ag oriau gwaith penodol.<br><br>O ran effeithiau traffig a thrafnidiaeth yn ystod y cam adeiladu, bydd mesurau lliniaru creiddiol fel rheolaethau traffig a phwyntiau mynediad wedi'u rheoli i'r safle ar waith, felly ni ragwelir unrhyw effeithiau sylweddol ar ddefnyddwyr y ffordd fel y nodir yn y DA (**Rhifyn 5, Pennod 9 - Traffig a Thrafnidiaeth**). Ar ben hynny, bydd gwybodaeth yn cael ei darparu i'r awdurdod lleol perthnasol a thrigolion lleol i roi gwybod am waith | Niwtral |

| Thema | Ymateb | Sgôr |
|---|---|---|
| | swnllyd posibl sydd i fod i ddigwydd. Gyda'i gilydd, bydd y mesurau hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd pobl leol yn gadael y gymuned oherwydd effeithiau sŵn negyddol.<br><br>Mae pedwar Hawl Dramwy Gyhoeddus o fewn 500m i safle gwaith Trawsfynydd, ond dim ond am gyfnodau cyfyngedig y byddai sŵn y gwaith adeiladu'n effeithio ar ddefnyddwyr Hawliau Tramwy Cyhoeddus a defnyddwyr hamdden pan fyddant yn agos at ffynhonnell sŵn. O ystyried natur ddeinamig defnyddwyr Hawliau Tramwy Cyhoeddus a defnyddwyr hamdden, yr amrywiaeth o effeithiau sŵn ar hyd yr Hawliau Tramwy Cyhoeddus sy'n creu'r amgylchedd sŵn amgylchynol, a'u defnydd dros dro, ni ragwelir newid sylweddol ym mhrofiad defnyddwyr Hawliau Tramwy Cyhoeddus o ganlyniad i allyriadau sŵn adeiladu o waith arfaethedig Trawsfynydd.<br><br>O ganlyniad, efallai y bydd pobl leol yn profi rhai effeithiau wrth deithio drwy'r ardal, ond bydd y rhain yn rhai tymor byr ac nid oes disgwyl iddynt fod yn sylweddol, oherwydd y mesurau lliniaru sydd ar waith. O ganlyniad, ystyrir y bydd pobl leol yn parhau i allu ymgymryd â'u gweithgareddau dyddiol yn yr ardal, felly maent yn debygol o aros yn eu cymunedau.<br><br>Byddai cadw, a lle bo'n bosibl, gwella'r amwynderau gweledol yn yr ardaloedd lleol hyn o bosibl yn annog pobl i aros yn eu cymunedau, a denu pobl o'r tu allan i'r gymuned gyfagos i ddefnyddio'r llwybrau cerdded a beicio. Er y gallai'r llwybrau hyn ddenu ymwelwyr di-Gymraeg, gall hefyd ddenu siaradwyr Cymraeg o gymunedau cyfagos.<br><br>Yn olaf, fel sy'n cael ei drafod isod, bydd gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn darparu seilwaith trydanol hanfodol ar gyfer yr ardal leol, gan helpu i sicrhau bod trigolion a busnesau yn gallu parhau i feddu ar offer technolegol. Bydd y buddsoddiad hwn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd y naill grŵp neu'r llall yn adleoli oherwydd seilwaith hen ffasiwn neu annigonol. | |
| A yw'n debygol y bydd pobl leol yn mudo o'r gymuned o ganlyniad i'r datblygiad? | Yn ystod y cam adeiladu, bydd mesurau lliniaru arfaethedig ar waith, a fydd yn cael eu sicrhau yn y CEMP, i leihau'r effeithiau ar bobl leol. Yn ystod y cam gweithredu, ni fydd unrhyw effeithiau ar y gymuned leol. | Niwtral |

| Thema | Ymateb | Sgôr |
| --- | --- | --- |
| | Unwaith y bydd yn weithredol, bydd gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn hwyluso gwelliannau mawr eu hangen i'r seilwaith trydanol sy'n gwasanaethu'r gymuned leol. Bydd hyn yn cefnogi ac yn cynnal gallu'r gymuned leol i weithredu a datblygu. Heb y seilwaith gofynnol a ddarperir gan waith arfaethedig Trawsfynydd, mae'n bosibl y bydd y gymuned yn wynebu tarfu oherwydd diffyg capasiti yn rhwydwaith y National Grid, a allai arwain at bobl a busnesau lleol yn gadael yr ardal.<br><br>Fel y trafodwyd, bydd y gwaith adeiladu yn y tymor byr, gyda mesurau lliniaru ar waith. Ni ragwelir unrhyw effeithiau gweithredol, ac mae gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn ofyniad allweddol ar gyfer seilwaith trydanol yn y gymuned leol. Mae'n annhebygol y bydd pobl leol yn mudo o'r ardal oherwydd gwaith arfaethedig Trawsfynydd. | |
| Cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg (gan gynnwys dysgwyr) ac unigolion nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg | Yn ystod y cam adeiladu, bydd hyd at 40 o weithwyr cyfwerth ag amser llawn ar y safle ar yr un pryd, gyda staff cynorthwyol y safle a sefydliadau partner hefyd yn bresennol. Lle bo'n ymarferol, bydd gweithwyr lleol yn dod o'r Brif Ardal Effaith Economaidd, ond o ystyried bod y safle wedi'i ynysu o ardaloedd poblog, efallai na fydd yn bosibl dod o hyd i'r holl weithwyr yn lleol. Fel y nodwyd yn Adran 5.4, mae tua thraean (32.9%) y bobl yn y Brif Ardal Effaith Economaidd yn gallu siarad Cymraeg. Mae'n bosibl y bydd gweithwyr a allai ddod o'r Prif Ardal Effaith Economaidd yn siarad Cymraeg.<br><br>Er mwyn sicrhau na fydd gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn effeithio ar y cydbwysedd rhwng siaradwyr Cymraeg ac unigolion heb unrhyw sgiliau Cymraeg, bydd arwyddion a gohebiaeth berthnasol yn cael eu paratoi yn Gymraeg ac yn Saesneg, a fyddai'n sicrhau y darperir yn ddigonol ar gyfer y ddau grŵp. | Amherthnasol |
| A yw'r datblygiad yn debygol o arwain at newid yn strwythur oedran y boblogaeth: mwy neu lai o blant, pobl ifanc, pobl ganol oed, yr henoed? | Bydd yr holl gyfleoedd cyflogaeth sy'n gysylltiedig â gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn digwydd yn ystod y cam adeiladu, lle amcangyfrifir y bydd uchafswm o 40 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn ar y safle bob dydd yn Nhrawsfynydd. Er y bydd trigolion lleol yn debygol o gymryd rhai o'r swyddi hyn, mae lefelau cyflogaeth yn ddigonol yn unig i gyflawni'r gwaith sydd ei angen, ac yn gyffredinol maent yn cynrychioli newid cymedrol iawn mewn cyflogaeth yng nghyd-destun y llafurlu yn ardal yr astudiaeth. Gan mai dim ond dros dro y bydd y newid bach hwn yn digwydd yn ystod y cam adeiladu, ni fydd unrhyw newidiadau parhaol i'r strwythur oedran yn y boblogaeth leol. | Niwtral |

| Thema | Ymateb | Sgôr |
|---|---|---|
| A yw'r newid yn debygol o fod yn un parhaol neu'n un dros dro? | Mae'r newid i'r seilwaith yn barhaol ond nid oes angen cyflogaeth barhaol, ac ni ddisgwylir unrhyw newidiadau parhaol i nodweddion y boblogaeth. | Niwtral |
| **Elfennau Gweledol** | | |
| A fydd y datblygiad yn gwneud yr iaith yn fwy amlwg? | Yn ystod y cam adeiladu, bydd gwybodaeth am y prosiect ac arwyddion sy'n ymwneud â gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn cael eu harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Niwtral |
| A fydd y datblygiad yn darparu arwyddion a hysbysebion ar y safle sydd o fewn y cylch gwaith cynllunio? | Yn ystod y cam adeiladu, bydd gwybodaeth am y prosiect ac arwyddion sy'n ymwneud â gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn cael eu harddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg. | Niwtral |
| A fydd enw'r datblygiad yn cadw hen enw Cymraeg neu a fydd yn enw newydd sy'n deillio o gysylltiadau hanesyddol, daearyddol neu leol â'r ardal? | Bydd yr holl enwau presennol sy'n berthnasol i'r safle yn cael eu cadw. Gan fod gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn cynnwys rhan o is-orsaf bresennol Trawsfynydd, ni fydd cyfle nac angen i enwi ardaloedd newydd. | Amherthnasol |
| **Ansawdd Bywyd** | | |
| A fydd y datblygiad yn cynyddu'r galw ar gyfleusterau a gwasanaethau lleol? | Yn ystod y cam adeiladu, ar ei anterth bydd hyd at 40 gweithiwr cyfwerth ag amser llawn ar y safle bob dydd yn Nhrawsfynydd. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd angen i rai gweithwyr aros mewn gwestai lleol a defnyddio cyfleusterau / gwasanaethau lleol yn ystod y cyfnod adeiladu. | Niwtral |
| I ba raddau y bydd y datblygiad yn cael effaith gadarnhaol neu | Mae pennod materion economaidd-gymdeithasol y DA (**Rhifyn 5, Pennod 12 - Materion Economaidd-Gymdeithasol**) wedi dod i'r casgliad bod gan y sector gwestai, | |

| Thema | Ymateb | Sgôr |
|---|---|---|
| negyddol ar gyfleusterau neu wasanaethau presennol? | llety gwely a brecwast a thafarndai lleol y capasiti i ddarparu ar gyfer y gweithlu adeiladu brig posibl o 40.<br><br>O ran busnesau lleol, lle gallai perchnogion a staff siarad Cymraeg, gallai presenoldeb gweithwyr ychwanegol yn ystod cam adeiladu gwaith arfaethedig Trawsfynydd arwain at fwy o ymweliadau â'r sefydliadau hyn, gan roi hwb i weithgarwch busnes a bod o fudd i'r gymuned leol.<br><br>O ran y galw a fydd yn codi ar rwydweithiau trafnidiaeth lleol yn ystod y gwaith adeiladu, bydd gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn hyrwyddo rhannu ceir er mwyn lleihau nifer y teithiau mewn cerbydau, gan dybio y bydd 50% yn cymryd rhan yn y cynllun hwn, a'r 50% sy'n weddill yn defnyddio cerbydau preifat. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw effeithiau negyddol ar rwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus, a byddai'r cynnydd mewn traffig ffyrdd yn fach iawn.<br><br>Mae'r effeithiau posibl uchod yn rhai dros dro ac nid oes disgwyl iddynt gael effaith niweidiol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned leol. | |
| I ba raddau bydd y datblygiad yn creu cyfleoedd newydd i hyrwyddo'r Gymraeg mewn cyfleusterau a gwasanaethau lleol megis neuaddau, siopau, ac yn y blaen? | Yn ystod y cam adeiladu, bydd gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn creu gweithlu o hyd at 40 o swyddi cyfwerth ag amser llawn yn ystod y cyfnod prysuraf. Lle bo'n ymarferol, bydd gweithwyr lleol yn dod o'r Brif Ardal Effaith Economaidd, ond o ystyried bod y safle wedi'i ynysu o ardaloedd poblog, efallai na fydd yn bosibl dod o hyd i'r holl weithwyr yn lleol.<br><br>Fel y nodwyd yn Adran 5.4, mae tua thraean (47.7%) y bobl yn y Brif Ardal Effaith Economaidd yn gallu siarad Cymraeg, gyda 59.3% ohonynt o oed gwaith (16-64). Mae'n bosibl felly bod gweithwyr a allai ddod o'r Prif Ardal Effaith Economaidd, ac sy'n defnyddio cyfleusterau a gwasanaethau lleol, yn gallu siarad Cymraeg, a fyddai'n cynrychioli cynnydd bach posibl yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gymuned leol.<br><br>Bydd mesurau mewn lle i sicrhau bod gan weithwyr ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd y Gymraeg yn y gymuned leol, megis darparu rhestrau ymadroddion i weithwyr a chreu cyfleoedd yn yr ardal i oedolion ddysgu Cymraeg drwy gynlluniau addysg. | Niwtral |

| Thema | Ymateb | Sgôr |
| --- | --- | --- |
| **Cyflogaeth** | | |
| Sut bydd y datblygiad yn cyfrannu at gyfleoedd cyflogaeth cyfredol yn yr ardal, e.e. a fydd yn meithrin amrywioldeb economaidd yn yr ardal leol ai peidio? | Fel y nodwyd uchod, amcangyfrifir y bydd gwaith arfaethedig Trawsfynydd yn cynhyrchu hyd at 40 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar y safle ar un adeg. Bydd hyn yn cynyddu cyfleoedd cyflogaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol ond ar raddfa gymedrol lle na ddisgwylir unrhyw newid i strwythur y farchnad gyflogaeth o ran symudedd llafur a chyflogau.<br><br>Fel y trafodwyd, mae swyddi adeiladu yn debygol o gael eu creu yn y Brif Ardal Effaith Economaidd, gan gynyddu cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer y boblogaeth oedran gweithio (16-64), sy'n cynnwys 59.3% o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg.<br><br>Mae staff adeiladu yn debygol o fod angen gwasanaethau gan fusnesau lleol fel siopau a bwytai. Bydd hyn ynddo'i hun yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi leol yn ystod gwaith arfaethedig Trawsfynydd.<br><br>Ni fydd unrhyw swyddi parhaol newydd yn cael eu creu gan waith arfaethedig Trawsfynydd yn ystod y cam gweithredu. | Cadarnhaol (budd tymor byr) |
| Sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer y busnes neu'r sefydliad a sut mae hynny'n cymharu â sgiliau llafur pobl leol (yn yr ardal teithio i'r gwaith) | Rhagwelir y bydd angen cyfuniad o weithwyr lleol a chenedlaethol yn ystod y cam adeiladu i ddarparu'r gweithgareddau sydd eu hangen.<br><br>Ni fydd unrhyw swyddi parhaol newydd yn cael eu creu gan waith arfaethedig Trawsfynydd yn ystod y cam gweithredu. Bydd gwiriadau ac ymweliadau achlysurol gan unigolion o’r National Grid sydd â set sgiliau benodol yn cael eu cynnal, a fydd yn debygol o deithio o'r Prif Ardal Effaith Economaidd. | Niwtral |
| Cyflogau a gynigir a sut mae hynny'n cymharu â chyflogau cyfartalog yn yr ardal | Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, bydd angen hyd at 40 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar y safle ar un adeg yn ystod y cam adeiladu. Nid oes gwybodaeth ar gael am y cyflogau a ragwelir, ond rhagwelir y byddai'r rhain yn cyd-fynd â'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y mathau o swyddi sydd eu hangen, a byddai'r lefel gymharol fach o swyddi a fyddai'n cael eu creu yn gyffredinol yn golygu na fydd unrhyw newidiadau i lefelau cyflog lleol. | Niwtral |

| Thema | Ymateb | Sgôr |
|---|---|---|
| Sgiliau llafur pobl leol (yn yr ardal teithio i'r gwaith) a pha mor debygol yw hi, yn ôl yr asesiad uchod, y bydd y swyddi'n cael eu llenwi o blith y boblogaeth leol | Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, mae'r cam adeiladu'n debygol o greu hyd at 40 o swyddi cyfwerth ag amser llawn i drigolion lleol. Bydd swyddi’n cael eu neilltuo ar sail y sgiliau sydd eu hangen, felly os bydd pobl leol yn cyflawni'r gofyniad hwn, mae'n debygol y byddent yn gallu llenwi'r swyddi hyn. | Niwtral |
| A yw'n debygol y bydd angen i chi chwilio y tu allan i'r ardal leol am weithwyr, e.e. i gael sgiliau arbenigol? | Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, mae'r cam adeiladu'n debygol o greu hyd at 40 o swyddi cyfwerth ag amser llawn, a allai gael eu llenwi gan drigolion lleol. Bydd rolau'n cael eu neilltuo ar sail y sgiliau sydd eu hangen, felly os na fydd pobl leol yn cyflawni'r gofynion hyn, mae'n debygol y bydd rhaid chwilio am weithwyr sydd â'r sgiliau perthnasol o'r tu allan i'r Prif Ardal Effaith Economaidd. | Niwtral |
| Pa fath o sgiliau Cymraeg sy'n hanfodol ac yn ddymunol ar gyfer y swyddi a fydd yn cael eu creu gan y datblygiad? Bydd angen diffinio'r rhain fel rhan o Gynllun Iaith Gymraeg y datblygiad (gwirfoddol neu statudol). | Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, ni fydd unrhyw swyddi parhaol newydd yn cael eu creu gan waith arfaethedig Trawsfynydd. Gall gweithgareddau cynnal a chadw achlysurol gael eu gwneud gan staff presennol National Grid, a allai fod wedi'u lleoli'n lleol ac sy'n debygol o siarad Cymraeg. | Amherthnasol |
| Sgiliau Cymraeg a fydd yn angenrheidiol er mwyn i'r gweithwyr a'u dibynyddion integreiddio i'r gymuned leol | Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, ni fydd unrhyw swyddi parhaol newydd yn cael eu creu gan waith arfaethedig Trawsfynydd. Gall gweithgareddau cynnal a chadw achlysurol gael eu gwneud gan staff presennol National Grid, a allai fod wedi'u lleoli'n lleol ac sy'n debygol o siarad Cymraeg. | Amherthnasol |

| Thema | Ymateb | Sgôr |
| --- | --- | --- |
| Yr effaith gronnus bosibl y gallai'r datblygiad ei chael, gan ystyried unrhyw ddatblygiad diweddar perthnasol arall yn yr ardal leol | Nid oes disgwyl i waith arfaethedig Trawsfynydd effeithio ar ddatblygiadau eraill yn yr ardal, fel y disgrifir yn y DA (**Rhifyn 5, Pennod 12 - Materion Economaidd-Gymdeithasol**). Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, nid oes disgwyl i waith arfaethedig Trawsfynydd greu cyflogaeth weithredol ac felly ni fyddai'n arwain at unrhyw effaith gronnus ar gyflogaeth. | Amherthnasol |

# 7. Lliniaru a Chasgliadau

7.1.1 Mae'r Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol hwn wedi ystyried effeithiau posibl gwaith arfaethedig Trawsfynydd ar y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned leol. Roedd yr Ystyriaethau Allweddol wedi sgorio pob categori fel rhai cadarnhaol (tymor byr), amherthnasol neu niwtral, felly nid oeddent wedi nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar y defnydd o'r Gymraeg yn y Prif Ardal Effaith Economaidd.

7.1.2 Er na nodwyd unrhyw effeithiau andwyol yn yr asesiad, disgwylir y bydd mesurau yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei gynnal. Bydd mesurau'n cynnwys defnyddio arwyddion dwyieithog ar gyfer y Prosiect ar lwybrau ffyrdd a Hawliau Tramwy Cyhoeddus yr effeithir arnynt. Ar ben hynny, fel y nodir yn yr Ystyriaethau Allweddol, bydd y Prosiect yn darparu adnoddau i weithwyr, fel rhestrau ymadroddion allweddol, i helpu'r rheini nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg.

7.1.3 Bydd ymgynghori pellach â'r gymuned leol a rhanddeiliaid allweddol yn parhau ar draws holl gamau'r prosiect, a byddwn yn darparu gwybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, a lle bydd digwyddiadau wyneb yn wyneb yn cael eu cynnal, bydd siaradwr Cymraeg yn bresennol. Bydd hyn yn sicrhau y darperir ar gyfer gofynion ieithyddol y gymuned leol ac yn bodloni'r safonau polisi cenedlaethol a lleol o ran y Gymraeg.

7.1.4 Mae National Grid o'r farn bod y Datganiad Cymunedol ac Ieithyddol hwn wedi bodloni gofynion polisi cenedlaethol a lleol yn ddigonol, ac y bydd yn rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei diogelu a'i gwella ar draws gwaith arfaethedig Trawsfynydd.

# Llyfryddiaeth


Cyf. 1-1 Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, (2021). Canllawiau Cynllunio Atodol: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Strategaethau-a-pholis%c3%afau/Cynllunio-ac-amgylchedd/Polisi-cynllunio/Canllawiau-Cynllunio-Atodol.aspx

Cyf. 1-2 Llywodraeth Cymru (2011) Mesur y Gymraeg 2011. Ar gael yn: *Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011*.

Cyf. 1-3 Llywodraeth Cymru (2017) Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg.pdf

Cyf. 1-4 Llywodraeth Cymru (2024) Cymraeg 2050: Cynllun gweithredu strategaeth y Gymraeg 2024 i 2025. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymraeg-2050-cynllun-gweithredu-strategaeth-y-gymraeg-2024-2025-html

Cyf. 1-5 Llywodraeth Cymru (2024). Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 12. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2024-07/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-12.pdf

Cyf. 1-6 Llywodraeth Cymru (2017) Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Iaith Gymraeg. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-09/tan20-y-gymraeg.pdf

Cyf. 1-7 Parc Cenedlaethol Eryri (2016) Cynllun Datblygu Lleol Eryri 2016-2031. Ar gael yn: https://cynllunio.eryri.llyw.cymru/polisi/cynllun-datblygu-lleol-eryri-mabwysiedig/

Ref. 2-1 Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Ar gael yn: Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Ref. 2-2 Llywodraeth Cymru (2019) Cymru'r Dyfodol: y Cynllun Cenedlaethol 2040. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymrur-dyfodol-y-cynllun-cenedlaethol-2040-0

Ref. 2-3 Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ar gael yn: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: yr hanfodion

Ref. 2-4 Parc Cenedlaethol Eryri (2021) Canllawiau Cynllunio Atodol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Rhwymedigaethau Cynllunio - Fersiwn Mabwysiedig. Ar gael yn:https://cynllunio.eryri.llyw.cymru/polisi/canllawiau-cynllunio-atodol-mabwysedig/

Cyf. 5-1 Amcangyfrifon poblogaeth ac aelwydydd: Cyfrifiad Cymru a Lloegr 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimatesenglandandwales/census2021

Cyf. 5-2 Llywodraeth Cymru (2019). *Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (diweddariad llawn i'r mynegai gyda graddfeydd): 2019.* Ar gael yn: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (diweddariad llawn i'r mynegai gyda graddfeydd): 2019 | LLYW.CYMRU.

Cyf. 5-3 Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) (2022). Sgiliau Cymraeg (siarad), Cymru: Cyfrifiad 2021. Ar gael yn: https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/culturalidentity/language/datasets/welshskillsspeakingwalescensus2021

Cyf. 5-4 Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol (ONS) (2011). Sgiliau iaith Gymraeg, Cymru. Cyfrifiad 2011. Ar gael yn: https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/ks207wa

Cyf. 5-5 ONS Geography (2024). LSOA (2011) to LSOA (2021) to Local Authority District (2022) Exact Fit Lookup for EW (V3). Ar gael yn: https://geoportal.statistics.gov.uk/datasets/ons::lsoa-2011-to-lsoa-2021-to-local-authority-district-2022-exact-fit-lookup-for-ew-v3/about

National Grid plc
National Grid House
Warwick Technology Park,
Gallows Hill, Warwick.
CV34 6DA Y Deyrnas Unedig

Cofrestredig yng Nghymru a Lloegr.
Rhif 4031152
nationalgrid.com